Cymdeithas Bob Owen

# Y Casglwr


Rhif 76 Pris i'r aelodau: £7.50 y flwyddyn • Pris i'r cyhoedd: £3.50 y rhifyn Gaeaf 2002

## Cenhadwr ein Caniadaeth Teyrnged i HUW WILLIAMS

Erbyn hyn, mae'r flwyddyn 1958 yn ymddangos ymhell iawn yn ôl, ond ar y pryd yr oeddwn yn Olygydd *Y Cymro*, ac wrth ddatblygu'r papur yn chwilio am rywun fuasai'n cyfrannu colofn wythnosol yn ymdrin â'n cerddoriaeth. A dyna pryd y deuais i gysylltiad am y tro cyntaf gyda Huw Williams, a oedd yn athro Hanes a Chymraeg yn Nhreffynnon. Nid yn unig fe gynhaliodd y golofn werthfawr honno – 'O fyd y gân' – yn wythnosol am un mlynedd ar bymtheg, ond daeth yn gyfaill hoff a chymwynasgar i mi.

Pan ddychwelais i Wynedd medrais ail-gysylltu â Huw a dod i adnabod nid yn unig ei briod Olwen, a ofalodd mor addfwyn amdano yn ei gystudd, ond hefyd ei fab athrylithgar (a ofalodd fod holl ffeithiau bywyd ei dad yn berffaith gywir yn hyn o ysgrif).

Bu cyfraniad Huw i hanes byd cerddorol Cymru yn enfawr, ac ni raid i mi wneud mwy nag enwi un o'i gyhoeddiadau, *Canu'r Bobol* i awgrymu maint y gymwynas a haeddiannol enillodd iddo radd M.A. er anrhydedd gan Brifysgol Cymru yn 1983.



*Huw Williams 1922–2002*

Bu ei berthynas â'r *Casglwr* yn sylweddol iawn hefyd. Yr oedd yn un o sefydlwyr Cymdeithas Bob Owen, ac yn ysgrifennydd busnes diwyd cyntaf *Y Casglwr*. A'r gymwynas olaf orau a fedraf fi ei wneud iddo yw ei goffáu trwy grynhoi stori ei fywyd a'i waith ar gyfer haneswyr y dyfodol.

* * *

Ganed Huw ym Mryngwran, Môn yn fab i Hugh a Mary Emma Williams. Roedd ei dad yn signalman ar y rheilffordd yn Nhŷ Croes, a'i fam yn wnïadwraig, – yn wraig ddarllengar, ac yn eisteddfodwraig frwd, ac a fu'n ddylanwad mawr ar ei mab.

Symudodd y teulu i bentref Bryn-du yn 1923, i ardal Y Parchedigion D. Cwyfan Hughes a William Morris, a'r Athro Herbert Williams, ac nid nepell o ardaloedd *Madam Wen* a *Storiau'r Henllys Fawr*. Yno, ar aelwyd ddiwylliedig 'Goleufryn' y magwyd Huw a'i frawd William, ac y cawsant eu trwytho yn 'y pethe'.

Cafodd addysg gynradd arbennig o dda yn Ysgol Gynradd Pencarnisiog, lle cafodd ei drwytho ymhellach mewn Sol-ffa a gweithiau cyfansoddwyr megis Wagner, cyn ennill ysgoloriaeth i Ysgol Sir Caergybi. Bu'n gas ganddo'r ysgol honno oherwydd ei hawyrgylch estronol trwyadl-Seisnig.

Tra oedd yn ddisgybl yn Ysgol Caergybi, dechreuodd gyfrannu newyddion lleol i *Herald Môn* a chael blas ar ysgrifennu, ond daeth Rhyfel ar ei warthaf, a gorfu iddo ymuno â'r *Royal Engineers* ym mis Gorffennaf 1942, a gwastraffu pum mlynedd mewn lifrai. Tra oedd yn y fyddin, cyfarfu â Churchill, Eisenhower a Montgomery, ynghyd â Richard Lewis (y tenor) a Joe Mercer (y pêl-droediwr), ond blynyddoedd atgas oedd y rheiny yn ei olwg, ac fe'i gwnaethant yn heddychwr cadarn.

Yn falch o droi cefn ar y fyddin, hyfforddodd yn athro dan gyfarwyddyd Tom Hughes Jones ac Olive Valerie Williams ac eraill yng Ngholeg Hyfforddi Cartrefle, Wrecsam (1948-9), a dechreuodd ddysgu mewn ysgolion ym Magillt a Threffynnon, Sir y Fflint ym mis Medi 1949, gan dreulio'r cyfnod hwyaf a hapusaf, o 1954 hyd 1968, yn athro yn Ysgol Dinas Basing, Treffynnon.

Yn ei dro, bu'n Ysgrifennydd (1953-56) a Llywydd (1956-57) Cymdeithas Cymrodorion Treffynnon, ac yn Ysgrifennydd ardal Treffynnon o'r Ymgyrch Senedd i Gymru (1953-55), gan chwarae rhan amlwg ym mywyd Cymraeg yr ardal. Dyma'r cyfnod y dechreuodd gyhoeddi ysgrifau ar gerddoriaeth (i'r *Athro* ym Mehefin 1953 ac i'r *Goleuad* yn 1958), gan gyfuno gwaith athro prysur â gwaith y llenor, y darlithydd, y beirniad eisteddfodol a'r newyddiadurwr.

Gadawodd Huw ei swydd fel athro ym mis Ionawr 1968, gan fentro mynd ar ei liwt ei hun i ddarlledu,

*(Parhad ar y dudalen ôl)*